# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*“Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro”*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o’r Cygor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Fercher 18fed Mai 2022**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Catrin Wager

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Huw V Jones
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Walter Williams

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Dyfrig Jones
Y Cynghorydd Bleddyn Williams

**Cyngor Sir**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Y Cynghorydd Rheinallt Puw

1. **Croesawyd** pawb i’r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Dyfrig Jones.
   **Ymddiheuriadau** – dim, pawb yn bresennol.
   Adroddwyd fod y cyn-gynghorydd, Griff Morris yn wael ofnadwy, a nodwyd fod yr aelodau i gyd yn meddwl amdano a’r teulu.

**2. Datgan Diddordeb**
Cyng. Dyfrig Jones yn datgan diddordeb ar cais cynllunio Neuadd Ogwen.
Cyng. Catrin Wager yn datgan ei fod yn aelod o staff Partneriaeth Ogwen.

**3. Materion Brys**
Dim.

**4. Cofnodion**
Y Clerc heb gynnwys penderfyniadau cynllunio ar y cofnodion diwethaf. Yn dilyn yr addasiadau yma, cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2022.

**5. Materion yn codi o’r Cofnodion**
**5.1** Angen drych ar Ffordd Gerlan – ar y gweill.
**5.2** Gordyfiant ar Ffordd Gerlan – y Clerc wedi cysylltu â Cyngor Gwynedd. Adroddwyd y Cyng. Ann Williams fod angen torri dwy ochr y ffordd – ar y gweill.
**5.3** Rhos y Nant – problem gyda dŵr yn sefyll - Cyng. Rheinallt Puw. Ar y gweill.

**5.4** CCTV Stryd Fawr – Nodwyd fod y Clerc wedi rhoid yr archeb i mewn, ond fod angen ymgynghori gyda'r trigolion fydd yn byw wrth ochr y camerau. Nodwyd Cyngor Gwynedd fydd ddim yn bosib cwblhau'r cynllun hwn ar frys, mae angen diweddaru'r 'servers' sydd ym Mhlas Ffrancon. Mae Cyngor Gwynedd yn gobeithio y bydd y sustem yn weithredol erbyn diwedd y flwyddyn.
**5.5** Arwyddion stryd – ar y gweill – y Clerc.
**5.6** Llinellau melyn ym Mhant Dreiniog – Cyng. Rheinallt Puw.
**5.7** Rhwystr yn rhydd yn ngwaelod Stryd y Ffynnon, hwn yn ofnadwy o beryg ac angen sylw ar frys – Cyng. Einir Williams i ddilyn i fyny.
**5.8** Ceblau uwchben yr A5 – dal un heb i'w wneud – y Clerc i holi eto.
**5.9** Llain o dir Stryd y Ffynnon, Gerlan – Adroddwyd fod y gwaith wedi gael ei gwblhau, ond fod safon y gwaith yn wael. Cyng. Einir Williams i edrych i fewn i'r mater.
**5.10** Drychau newydd ar Lon Groes a gwaelod Ty'n Ffridd – Y Cyng. Paul Rowlinson – ar y gweill.
**5.11** Cae Chwarae Pantdreiniog – Nodwyd fod Cyngor Gwynedd wedi addasu'r lleoliad ar y cynllun, ac felly mae'r Cyngor yn gallu mynd ymlaen i arwyddo'r brydles ac i archeubu'r offer.
**5.12** Cyngor Gwynedd – Llinellau melyn Llwyn Bleddyn – y Clerc i holi os oes modd gael amodau parcio – dim parcio rhwng 8yb a 5yp yn lle y llinellau melyn.
**5.13** YGC – Sherpa Shelters – eisiau gosod 3 lloches bws ym Methesda – ar y gweill.

**6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Trafodwyd a nodwyd yr adroddiad. Y Clerc i holi'r Swyddog Eiddo am costau llogi a TAW Canolfan Cefnfaes a'i danfon ymlaen at y Cyng. Ann Williams. Pendefynwyd diolch i'r Bartneriaeth am eu holl waith ac yn cefnogi pob peth mae nhw'n ei wneud.

**7. Llinellau Melyn**
Nodwyd fod gwaith tarmacio wedi gael ei gwblhau ar Ffordd Ffrydlas, ac wedi mynd dros y llinellau melyn gwreiddiol, felly fydd angen ail baentio'r llinellau. Y Cyng. Rheinallt Puw i ychwanegu'r gwaith i'r rhestr. Nodwyd hefyd fod angen gwneud cais am linellau melyn yn y man pasio ger Fynwent Coetmor a tu allan i rhif 3 Ffordd Tanybwlch, Rachub, y Clerc i holi Cyngor Gwynedd.

**8. Maes parcio Gerlan**
Dim diweddariad ar gael. Cytunwyd y bydd y Cyng. Einir Williams a'r Cadeirydd yn trefnu cyfarfod hefo Cyngor Gwynedd i geisio gwthio pethau ymlaen.

**9. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Mai 2022'
**9.1** Un Llais Cymru – Cynhesu byd-eang a newid hinsawdd – Cytunwyd bydd y Cyngor yn gofyn wrth Partneriaeth Ogwen i ymateb ar ran y Cyngor.
**9.2** Mudiad Meithrin – Dim pwyllgor – Nodwyd fod dau aelod o staff wedi gael ei penodi fel unigolion cofrestredig tan diwedd y tymor, felly bydd y Cylch yn parhau hyd at mis Medi – cytunwyd bydd y Cyng. Bleddyn Williams yn pasio manylion Cynan Jones, Partneriaeth Ogwen at y pwyllgor presennol.

**10. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C22/0256/13/LL**<br>Brig y Nant, Lon Newydd Coetmor | Codi 18 tŷ, ffordd newydd a thirlunio<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C22/0163/13/DT**<br>4 Rhes Jams, Braichmelyn | Codi estyniad deulawr yn y cefn<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C22/0141/13/RA**<br>Tir ger Llain y Pebyll, Bethesda | Rhyddhau amod 10 (ymchwiliad i nodi natur a lefel halogiad y safle) o ganiatad cynllunio C20/0018/13/LL<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C22/0327/16/AC**<br>Chwarel y Penrhyn | Cais o dan Adran 73 i amrywio amod 1 a 3 o ganiatad cynllunio C16/1164/16/MW<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C22/0336/16/MW**<br>Chwarel y Penrhyn | Cais ar gyfer estyniad i weithfeydd cloddio llechi<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C22/0384/13/DA**<br>31 Erw Las, Bethesda | Diwygiad ansylweddol i'r cynlluniau a gymeradwywyd drwy ganiatad cynllunio C21/0408/13/DT<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau |

**<u>Ceisiadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C22/0393/13/LL**<br>Neuadd Ogwen, Bethesda | Dymchwel adeiladau allanol presennol a chodi ystafelloedd gweithgaredd yn eu lle<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |

**C22/0454/13/DT**

| | |
|---|---|
| Ty Nain, 28 Erw Las, Bethesda | Dymchwel ystafell wydr gefn bresennol. Codi estyniad deulawr newydd i gefn ac ochr yr eiddo<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |

**11. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Opus Energy | BACS | Llys Dafydd – Trydan | £53.34 |
| Scottish Power | BACS | Golau Nadolig | £27.76 |
| Scottish Power | BACS | Gorffwysfan – Nwy | £506.55 |
| Scottish Power | BACS | Gorffwysfan – Trydan | £96.04 |
| Snowdonia Fire | BACS | Gorffwysfan – gwirio offer tân | £80.72 |
| John Wyn Jones | BACS | Cyflog mis Mai | £318.20 |
| CThEM | BACS | TWE mis Mai | £79.60 |
| C L Jones | BACS | Llys Dafydd | £54.83 |
| Cyngor Gwynedd | BACS | Difa pla – Gorffwysfan | £50.00 |
| J Roberts | BACS | Gorffwysfan – paentio | £265.00 |
| Partneriaeth Ogwen | BACS | Anrhegion i'r Cynghorwyr sy'n ymddeol | £27.00 |